

Mwy o wybodaeth

Am ragor o fanylion ewch i wefan ParentPay, neu gallwch gysylltu â'r ysgol:



Cyflwyniad i'n gwasanaeth
talu ar-lein



www.parentpay.com

Beth mae ParentPay yn ei wneud?

- Mae'n galluogi i chi dalu am arian cinio, teithiau ysgol a gwasanaethau eraill megis gwersi cerdd.
- Mae'n cynnig safle talu diogel iawn
- Mae'n darparu cofnod o bob taliad 'rydych wedi eu gwneud
- Mae'n caniatáu i chi greu un mewngofnodiad i'ch cyfrif ar gyfer yr holl blant sydd gennych yn mynychu ysgol ParentPay
- Mae'n dangos i chi bob eitem sydd ar gael ar gyfer taliad sy'n berthnasol i bob un o'ch plant
- Mae'n e-bostio derbynneb ar gyfer eich taliad i'r cyfeiriad e-bost y byddwch yn ei gofrestru
- Mae'n galluogi i chi gael eich atgoffa drwy e-bost/SMS ar gyfer gwneud taliadau

Sut mae ParentPay yn eich helpu?

- Mae'n rhoddi i chi'r rhyddid i wneud taliadau i'r ysgol pryd bynnag a ble bynnag y mynnwch
- Mae'n eich atal rhag gorfod 'sgrifennu sieciau na chwilio am arian parod i'w anfon i'r ysgol
- Mae'n rhoddi tawelwch meddwl i chi fod eich taliad wedi cael ei wneud yn ddiogel
- Mae'n helpu gyda chadw trefn ar eich arian; gwneir y taliadau ar unwaith, 'does dim angen aros i sieciau glirio.
- Gellir gwneud taliadau ar gyfer llawer o'r teithiau mwy fesul rhandaliadau i fyny at y dyddiad cau
- Fydd byth angen i chi fethu taliad gyda negeseuon atgoffa awtomatig e-bost/SMS
- Mae ParentPay yn gyflym ac yn hawdd i'w ddefnyddio

Sut mae ParentPay yn helpu ein hysgol?

- Mae'n lleihau'r amser gweinyddol a dreulir ar drefniannau bancio
- Mae'n cadw cofnod cywir o daliadau a wnaed am bob gwasanaeth ar gyfer pob disgybl
- Nid yw taliadau'n methu
- Mae'n lleihau faint o bapur a gaiff ei 'wastraffu'
- Mae'n caniatáu ad-daliadau cyflym a chyfleus yn ôl i'r cerdyn talu
- Mae'n gwella cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni ynglŷn â thaliadau
- Mae'n cynnig proses fwy effeithlon ar gyfer casglu taliadau, gan leihau faint o arian gaiff ei gadw yn yr ysgol
- Mae'n ein helpu i wella cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref gyda'i ganolfan negeseuon integredig e-bost/SMS

Sut ydw i'n dechrau arni?

Byddwn yn anfon llythyr cofrestru atoch yn cynnwys eich enw-defnyddiwr a'ch cyfrinair er mwyn eich galluogi i osod i fyny eich cyfrif ParentPay. Yn ystod y broses o gofrestru, cewch eich arwain drwy newid eich enw-defnyddiwr a'ch cyfrinair i rywbeth mwy cofiadwy; os oes gennych fwy nag un plentyn mewn ysgol/ion ParentPay gallwch ychwanegu plant i gyfrif unigol gan ddarparu un mewngofnodiad ar gyfer yr holl blant sydd gennych yn Ysgol Dyffryn Conwy ac mewn ysgolion ParentPay eraill.